Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth Ynni
Energy Service

# Nodyn cyngor technegol

## Cyfraddau milltiroedd cerbydau trydan batri (BEV)

**Chris Endacott**

### Cefndir

Ceir sefyllfaoedd pan fyddwch efallai eisiau talu cyfradd milltiroedd (£/milltir) i yrrwr cerbyd trydan batri (BEV) sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes ond sy'n cael ei wefru gartref o'r cyflenwad domestig:

- Milltiroedd busnes car cwmni
- Milltiroedd busnes car cynllun prydles
- Milltiroedd busnes car cynllun aberthu cyflog
- Fan fusnes yn cael ei gwefru gartref
- Car preifat "fflyd lwyd"

Dylid ad-dalu'r BEV "fflyd lwyd" mewn perchnogaeth breifat ar yr un raddfa â cherbyd peiriant tanio mewnol (ICE), yn ddelfrydol drwy ddefnyddio Cyfradd milltiroedd a gymeradwyir gan CThEM (AMR) o £0.45/milltir (hyd at 10,000 milltir) gan ei fod yn rhydd o dreth incwm ac yswiriant cenedlaethol.

Mae'r nodyn cyngor hwn yn cwmpasu'r cerbydau sy'n eiddo i'r sefydliad neu a brydlesir gan y sefydliad. Nid yw'n ymdrin ag ad-daliad cerbydau sy'n cael eu gwefru mewn pwyntiau gwefru cyhoeddus na chan gymysgedd o bwyntiau gwefru domestig a chyhoeddus. Mae gwefru cymysg yn fwy cymhleth ac mae angen defnyddio "cerdyn ynni" (fersiwn BEV o gerdyn tanwydd) i dalu am y pwyntiau gwefru cyhoeddus a gwefrydd domestig clyfar sy'n gallu adrodd am ddefnydd cartref dros WiFi neu rwydweithiau cellog.

### Ad-dalu milltiroedd busnes ceir

Ni waeth beth yw'r trefniadau ariannol mewnol neu enw'r cynllun prydlesu car i sefydliad ac a ddarperir i weithiwr gyda "defnydd preifat" diamod, ymdrinnir ag ef fel "car cwmni" gan CThEM.


Fflyd Cyngor Dinas Casnewydd

Mae cynlluniau prydles gyfrannol a chynlluniau aberthu cyflog felly yn gynlluniau ceir cwmni yng ngolwg CThEM a dylai ad-daliad milltiroedd ddilyn rheolau CThEM ar gyfer ceir cwmni. Gallai methu â gwneud hynny olygu y bydd y gweithiwr yn talu treth incwm ychwanegol a'r cyflogwr yn talu Yswiriant Gwladol (YG) ychwanegol.

Mae CThEM yn cyhoeddi Cyfraddau Tanwydd Cynghorol (AFR) ar gyfer ceir cwmni. Y bwriad yw talu cost y tanwydd yn unig gan fod y car yn cael ei ariannu'n llawn. Y gyfradd ar gyfer ceir trydan batri yw £0.05/milltir, nid yw wedi newid ers cryn amser, ac nid yw'n seiliedig ar naill ai Cap Tariff Diofyn OFGEM sy'n cael ei ddiweddaru bob tri mis na'r Warant Pris Ynni presennol. Nid oes cyfradd AFR ar gyfer faniau.

I weithiwr sy'n talu am ynni domestig drwy ddebyd uniongyrchol (taliadau misol sefydlog) mae'r gost uchaf rhanbarthol cyfartalog fesul kWh yn Chwarter 4, 2022 a Chwarter 1, 2023 wedi'i gapio ar £0.34. Os yw car trydan y gweithiwr yn cyflawni tair milltir/kWh (mae'r rhan fwyaf yn yr ystod tair i bedair milltir) mae hyn yn rhoi cost o £0.113/milltir - sy'n sylweddol uwch nag AFR BEV CThEM.

## Cyfrifo cyfradd tanwydd BEV ar gyfer ceir

Y cam cyntaf yw defnyddio'r cap prisiau i bennu cyfradd realistig. Mae'r gwir bris a delir am drydan yn dibynnu ar y cyflenwr, y dull talu (debyd uniongyrchol, credyd, neu ragdaliad) a rhanbarth ond mae'r gwahaniaethau'n fach. Yn dibynnu ar yr ardal mae eich sefydliad yn ei chwmpasu efallai y bydd yn symlach mabwysiadu un gyfradd yn unig gan y bydd y fantais wirioneddol i weithiwr yn dibynnu ar ba mor dda y mae'n gyrru ei BEV (milltiroedd fesul kWh).

## Terminoleg Tariff OFGEM

Pan ddaw'r Warant Pris Ynni i ben ym mis Ebrill 2023, gall prisiau i rai gweithwyr ddychwelyd i'r Cap Tariff Diofyn:

**Dull Arall o Dalu:** mae hwn yn cynnwys debyd uniongyrchol misol felly bydd llawer o staff ar y cynllun hwn.

**Credyd Safonol:** a delir ar ddiwedd pob chwarter/mis am yr ynni a ddefnyddir yn y chwarter/mis hwnnw, mewn ôl-ddyledion – felly "credyd".

**Taliad ymlaen llaw:** telir amdano cyn ei ddefnyddio – felly mae'n rhaid i chi "wneud taliad atodol ar gyfer eich mesurydd" – dull a ddefnyddir yn aml mewn tai rhent a thai cymdeithasol – gyda'r bwriad o atal dyledion rhag cronni .

**Cyfradd Sengl:** telir un tariff nad yw'n amrywio yn ôl yr adeg o'r dydd.

**Cofnodi lluosog:** mae hyn yn cynnwys tariffau sy'n amrywio yn ôl yr adeg o'r dydd er enghraifft "Octopus Go", ac "Octopus Agile" (mae EDF, British Gas, Scottish Power ac E.On wedi tynnu eu tariffau EV oddi ar y farchnad).

Y colofnau "nil kWh" i bob pwrpas yw'r tâl sefydlog uchaf sy'n daladwy gan aelwyd na ddefnyddiodd unrhyw ynni (mae'r tablau hyn yn dangos y pris uchaf nid y pris gwirioneddol) – felly rhannwch â 365 i gael uchafswm y tâl sefydlog dyddiol.

Y colofnau "(3,100kWh)" a "(4,200kWh)" yw cyfanswm y gost sy'n seiliedig ar ddefnydd canolrifol ar gyfer y ddau gynllun mesurydd ac mae'n cynnwys y tâl sefydlog mewn "nil kWh".

I gyrraedd y gost uchaf fesul kWh rhaid i chi ddewis y dull talu, y rhanbarth a'r trefniant mesurydd yna didynnu y tâl sefydlog uchaf a rhannu'r hyn sydd ar ôl â'r kWh priodol.

Er enghraifft: "PM arall", De Cymru", "Cofnodi lluosog" = (£2,133.73-£171.23)/4,200kWh = £0. 467/kWh sydd yn 3 milltir/kWh = £0.156/milltir.


Fflyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

## Cytuno ar AFR amgen ar gyfer cerbydau trydan batri

Mae CThEM yn datgan ar dudalen we AFR: *"os yw cost teithio busnes yn uwch na chyfraddau canllaw, gallwch ddefnyddio eich cyfraddau eich hun i adlewyrchu eich sefyllfa"*

Ar ôl i chi benderfynu ar y gyfradd briodol cysylltwch â'ch ardal dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a gofynnwch iddynt gytuno mewn egwyddor ar gyfradd milltiroedd yn seiliedig ar gap prisiau chwarterol OFGEM.

Byddai CThEM fel arfer yn disgwyl system gadarn o gofnodi'r cyfanswm o kWh a ddefnyddir a'r milltiroedd preifat/busnes wedi eu cofnodi ar wahân (mae rhai pwyntiau gwefru domestig yn cofnodi kWh) - un y gallent ei archwilio pe dymunent wneud hynny. Fodd bynnag mae arolygiad yn annhebygol oherwydd statws treth y budd:

## Mae trydan ar gyfer cerbydau trydan batri yn fudd sy'n rhydd o dreth

Os ydych yn darparu "cerdyn ynni", yn cwrdd â chost gyfan gwefru EV gartref neu'n darparu pwyntiau gwefru yn y gweithle nid oes rhaid i chi godi tâl ar y gweithiwr am yr ynni a gyflenwyd gan ei fod yn fudd sy'n rhydd o dreth.

## Cyfradd Milltiroedd ar gyfer Faniau

Gellir defnyddio'r un dull ar gyfer faniau, fodd bynnag mae yna atebion yn y farchnad hefyd ar gyfer cofnodi manylion gwefru faniau gartref yn gywir.

Mae dewisiadau ad-dalu ar gyfer gwefru faniau sy'n cael eu cadw yng nghartrefi gweithwyr yn cael eu cwmpasu'n fanylach mewn Nodyn Cyngor ar wahân.

**Dysgwch fwy am y ffordd y gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru helpu eich menter gymunedol neu'ch sefydliad sector cyhoeddus:**

Gwefan: Clicwch yma | E-bost: ymholiadau@gwasanaethynni.cymru

@_gwasanaethynni | gwasanaeth-ynni-llywodraeth-cymru

Ariannir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ("GYLlC") gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Cyflawnir GYLlC gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaethau Lleol (y "Partneriaid Cyflawni"). Mae'r adroddiad hwn (yr "Adroddiad") wedi cael ei lunio gan y Partneriaid Cyflawni ac, er bod y farn a fynegwyd ynddo yn cael ei rhoi yn ddidwyll yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:- (i) nid yw'r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru, nad yw'n atebol am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegwyd yn yr Adroddiad; (ii) bwriad yr Adroddiad yw darparu arweiniad cyffredinol yn unig, yn hytrach na chyngor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect penodol neu fater arall, ac ni ddylai unrhyw un sy'n cael yr Adroddiad ddibynnu arno yn lle cael eu cyngor eu hunain gan gynghorydd trydydd parti priodol; a (iii) felly dylai unrhyw berson sy'n cael yr Adroddiad hwn gael ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu gyngor proffesiynol perthnasol arall i'r graddau y mae angen arweiniad penodol arno ar ba gamau (os o gwbl) i'w cymryd, neu ymatal rhag eu cymryd, mewn cysylltiad ag unrhyw brosiect, menter, cynnig, ymwneud ag unrhyw bartneriaeth neu fater arall y gall gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad fod yn berthnasol; a (iv) nid yw'r Partneriaid Cyflawni yn atebol mewn cysylltiad â'r Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw wall neu hepgoriad sy'n ymwneud â'r Adroddiad.